O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 3144 (Cy. 279)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

CADWRAETH PYSGOD MÔR

Gorchymyn Rhwydi Pysgota Berdys (Cymru) (Diwygio) 2008

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio erthygl 3(1)(ch) o Orchymyn Rhwydi Pysgota Berdys (Cymru) 2008 ("Gorchymyn 2008").

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 3144 (Cy.279)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

CADWRAETH PYSGOD MÔR

Gorchymyn Rhwydi Pysgota Berdys (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed *08 Rhagfyr 2008*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *09 Rhagfyr 2008*

Yn dod i rym *2 Ionawr 2009*

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**), fel y'i darllenir gyda pharagraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno(**3**), o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli'r cyfeiriadau at offerynnau'r Gymuned Ewropeaidd yng Ngorchymyn 2008 fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 3(1) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**4**), a thrwy arfer y pwerau a

(**1**) O.S. 2005/2766 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/3329). Yn rhinwedd adrannau 59(1) ac 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddwyd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) 1972 p.68.

(**3**) Mewnosodwyd paragraff 1A gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).

(**4**) 1967 p.84. Diwygiwyd adran 3 gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p.86), adran 9(1) ac Atodlen 2, paragraff 16(1); Deddf Pysgota'r Glannau (Yr Alban) 1984 (p.26), adran 10 (1) ac Atodlen

roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rhwydi Pysgota Berdys (Cymru) (Diwygio) 2008. Mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 2 Ionawr 2009.

Diwygiadau

2.—(1) Diwygir Gorchymyn Rhwydi Pysgota Berdys (Cymru) 2008(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 3, paragraff 1(d), o'r testun Saesneg yn lle "or" rhodder "of", ac yn erthygl 3, paragraff 1(ch) o'r testun Gymraeg dileer y gair "ac".

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

08 Rhagfyr 2008

1 ac O.S. 1999/1820, erthygl 4, Atodlen 2, Rhan1, paragraff 43(1), (2) a (4). *Gweler* adran 22(2)(a) am ddiffiniadau o "*the Ministers*" at ddibenion adran 3; diwygiwyd adran 22(2) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29), adrannau 19(2)(d) a 45(b) ac (c) a chan O.S. 1999/1820, erthygl 4, paragraff 43(12) o Atodlen 2. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidogion yn adrannau 3(1) o Ddeddf 1967, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998) gan erthygl 2 ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedyn i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.38) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**1**) O.S. 2008/1811 (Cy.175).